



03.07.2020

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Yr wythnos hon mae'r ysgol wedi croesawu llawer o ddisgyblion yn ôl i'r ysgol ar gyfer eu diwrnodau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' cyntaf. Mae'r holl ddisgyblion wedi cael profiad llwyddiannus a chadarnhaol yn dod yn ôl i'r ysgol am y tro cyntaf ers cau ym mis Mawrth. Mae ysgolion a dosbarthiadau yn edrych ac yn gweithredu'n wahanol iawn ac mae diolch enfawr yn mynd i'n holl ddisgyblion; maen nhw wir wedi bod yn glod i chi ac wedi cymryd yr amgylchedd newydd yn eu blaen. Diolch i chi hefyd wrth gwrs fel rhieni a gofalwyr am baratoi'ch plant ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ac am gydymffurfio â'n trefniadau safle newydd. Mae yna lawer o ddisgyblion sy'n dal i aros i fynychu eu diwrnod cyntaf yr wythnos nesaf ac rydyn ni'n edrych ymlaen at eu croesawu. Os mae unrhyw plentyn wedi colli'r diwrnod cyntaf ac os hoffai'r rhiant / gofalwr iddynt fynychu'r ail ddiwrnod, cysylltwch â'r ysgol i gadarnhau ymweliad yr ail ddiwrnod a byddwn yn darparu lle iddynt wrth gwrs.

Adroddiadau Ysgol

Rhoddir adroddiadau diwedd blwyddyn i ddisgyblion pan fyddant yn mynychu eu hail ddiwrnod dal i fyny yn yr ysgol. Os na fydd eich plentyn yn mynychu ei ail ddiwrnod, cysylltwch â swyddfa'r ysgol trwy e-bost i admin.broogwr@bridgend.gov.uk i gynghori a hoffech gael adroddiad eich plentyn trwy e-bost neu ei bostio adref. Gallwch hefyd ofyn am drefnu amser cyfleus i gasglu'r adroddiad o'r swyddfa. Sylwch fod cynnwys yr adroddiad pwnc-benodol yn dyddio o ddiwrnod swyddogol olaf yr ysgol ar agor ac felly ni fydd yn adlewyrchu unrhyw ddatblygiadau neu cynnydd a wnaed wrth i'r ysgol fod ar gau.

Ap Rhiant SIMS - offeryn cyfathrebu newydd

O fis Medi ymlaen byddwn yn lansio ap cyfathrebu newydd cyffrous ar draws yr ysgol, a fydd yn rhoi mynediad rhwydd i rieni a gofalwyr at ddata presenoldeb, dyddiadau tymor, manylion digwyddiadau ysgol, negeseuon a chylchlythyrau ysgol. Mae'r Ap Rhiant yn cael ei fabwysiadu gan lawer o ysgolion ar draws yr awdurdod a bydd hefyd yn cynorthwyo gyda throsglwyddo i'n hysgolion. Byddwn yn treialu'r ap hwn yn y lle cyntaf gyda rhieni Blwyddyn 5 cyfredol yn ystod yr wythnosau nesaf ar ffurf gwahoddiadau e-bost ac yn anelu at gyflwyno'r ap i bob rhiant ym mis Medi. Bydd yr holl gyfathrebu â'r ap yn ddwyieithog wrth gwrs.

Dosbarthiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd

Bydd rhieni / gofalwyr yn cael eu hysbysu o'r dosbarthiadau newydd trwy'r gwasanaeth testun ysgol ar ddydd Llun 6 Gorffennaf. Oherwydd gofynion gweithredol, byddwch yn sylwi ar rai newidiadau staff ar draws yr ysgol o ran ble mae staff. Bydd y dosbarthiadau a'r athrawon newydd hefyd yn cael eu trafod gyda disgyblion sy'n mynychu eu hail ddiwrnod dal i fyny yn yr ysgol, fel rhan o'r paratoad ar gyfer mis Medi.

Gwyliau'r Haf

Nid yw gwyliau'r haf bellach yn rhy bell i ffwrdd ac fel athrawon / rhieni / gofalwyr a disgyblion, dylem gymryd yr amser hwn i fwynhau'r tywydd heulog (gobeithio) cyn ail-gydio gyda'r flwyddyn academaidd newydd. Rydym yn bwriadu darparu fideos / tiwtorialau youtube Sgiliau Sylfaenol wythnosol yn y meysydd Rhifedd a Llythrennedd. Bydd grid hefyd o dasgau teulu dewisol a gobeithiwn y byddwch yn mwynhau cwblhau rhai o'r rhain. Os gwelwch yn dda trydarwch unrhyw luniau i'n cyfrif Twitter @ ysgolbroogwr i ni eu gweld ym mis Medi.

Tymor yr Hydref 2020

Hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod o hyd sut fydd Tymor yr Hydref o ran y pandemig neu'r addysg a byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i gyfathrebu unrhyw ddatblygiadau i chi cyn gynted ag y gallwn wneud hynny. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ganllaw ffurfiol, gan Lywodraeth Cymru na'r Awdurdod Lleol, i ganiatáu inni gytuno ar gynllun ffurfiol ar gyfer mis Medi.

Mae staff Bro Ogwr wedi darparu cyfleoedd a thasgau gwaith rhagorol i ddisgyblion ers cau'r ysgol, ochr yn ochr â recordiadau a fideos, caneuon a straeon YouTube. Yn y gorffennol rydym eisoes wedi cyfathrebu adnoddau Cymraeg sydd ar gael. Mae adnoddau addysgol yn cael eu datblygu'n barhaus gyda mwy o opsiynau ac adnoddau ar gael wythnos ar ôl wythnos.

Rydym yn rhagweld y bydd yr ysgol o fis Medi ar ffurf 'Dysgu Cyfunol', a fydd yn cynnwys cyfuniad o amser wyneb yn wyneb ag athrawon yn yr ysgol (faint nad ydym yn ei wybod eto) a thasgau dysgu gartref. Mae staff wedi bod yn gweithio'n wahanol iawn y tymor hwn wrth addasu a mabwysiadu strategaethau a ffyrdd newydd o addysgu. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar amryw o opsiynau i ddatblygu y defnydd o Dechnoleg a recordiadau ymhellach fel rhan o'r gwaith ar-lein a'r tasgau i gyd-fynd â'r sesiynau wyneb yn wyneb. Mewn sawl achos, bu'n anodd ymgymryd â thasgau a recordiadau ar-lein gartref i'n staff a'n nod yw i ddarparu mwy o gyfleoedd yn y maes hwn o fis Medi pan fydd yr holl staff yn dychwelyd i safle'r ysgol ac yn gallu cynllunio a chefnogi ei gilydd yn y broses.

Unwaith eto, rydym yn diolch i chi am eich cydweithrediad parhaus yn ystod yr amseroedd anodd hyn a'ch dealltwriaeth a'ch amynedd yn yr hyn sy'n brofiad dysgu i ni i gyd. Diolch am y lluoedd negeseuon o ganmoliaeth a chefnogaeth rydym wedi derbyn. Fel arfer, os oes angen unrhyw gymorth yn ystod gweddill y tymor hwn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r ysgol trwy gyfeiriad e-bost 'Admin' yr ysgol.

Sharon Jayne

Pennaeth

Nik Dart

Cadeirydd y Llywodraethwyr